**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 30.01.26 |
| **Pwnc / Subject:** | Safonau proffesiynol diwygiedig ar gyfer cynorthwyo addysgu, addysgu ac arweinyddiaeth |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## Ymateb

**Cyflwyniad**

At ei gilydd, mae Estyn yn ystyried bod y fframwaith diwygiedig yn set o safonau proffesiynol sydd wedi'i llunio'n dda, yn berthnasol ac yn alluogol, a allai, gyda chymorth effeithiol a gweithredu cyson, wella proffesiynoldeb, hyder ac effaith y gweithlu addysg yng Nghymru. Mae'n rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu system fyfyriol, gydweithredol a theg a all gynnal gwelliant.

Mae'r safonau proffesiynol diwygiedig yn cyflwyno fframwaith clir a chydlynus sy'n cyd-fynd yn effeithiol â chenhadaeth genedlaethol Cymru ar gyfer addysg, ar y cyfan. Mae'r strwythur yn darparu continwwm rhesymegol o gynorthwyo addysgu trwodd i arweinyddiaeth system, gan alluogi ymarferwyr i'w gweld eu hunain yn rhan o gymuned broffesiynol ar y cyd sydd wedi ymrwymo i welliant a datblygiad parhaus.

Mae'r fframwaith yn cipio hanfod arfer broffesiynol effeithiol o fewn cyd-destun Cwricwlwm i Gymru ac yn rhoi addysgeg yn elfen graidd o'r proffesiwn. Mae'r pwyslais ar gwestiynau myfyriol a disgrifwyr, yn hytrach na meini prawf cyfarwyddol, yn cynrychioli symudiad diwylliannol oddi wrth gydymffurfiaeth tuag at ddeialog broffesiynol, ymholi a hunanwerthuso. Mae'r dull hwn yn cefnogi barn Estyn fod gwelliant cynaliadwy yn deillio o arfer fyfyriol a hunanwerthuso cadarn.

Mae cysondeb y fframwaith â blaenoriaethau cenedlaethol fel Cymraeg 2050, gwrth-hiliaeth a llesiant cenedlaethau'r dyfodol, yn cryfhau ei berthnasedd a'i gydlyniant moesol. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad eglur at y flaenoriaeth hanfodol sy'n gysylltiedig â lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Yn bwysig, mae cynnwys cynorthwywyr addysgu o fewn yr un continwwm yn cadarnhau cyfrifoldeb ar y cyd pob aelod o staff am gynnydd dysgwyr, gan gefnogi diwylliant o gydraddoldeb a pharch ar draws rolau.

Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i sawl maes:

Yn gyntaf, gallai cymorth gweithredu ac enghreifftiau fod yn ddefnyddiol. Byddai ymarferwyr yn elwa ar enghreifftiau clir ac ymarferol o sut beth yw pob safon

mewn gwahanol gamau gyrfa. Mae perygl y gallai dehongli amrywio ar draws ysgolion a rhanbarthau, gan arwain at anghysondeb.

Yn ail, byddai digon o amser, capasiti a dysgu proffesiynol yn galluogi staff i ymgysylltu'n ystyrlon â'r safonau, yn enwedig cynorthwywyr addysgu ac athrawon ar ddechrau eu gyrfa.

Yn drydydd, mae cyfle hefyd i gryfhau cyfeiriad at addysgeg ddigidol, arloesi ac arweinyddiaeth system mewn cyd-destun addysgol sy'n esblygu'n gyflym, er enghraifft datblygiadau diweddar Deallusrwydd Artiffisial.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n cyfeirio'n aml at *"arweinyddiaeth system"* ac "arweinwyr system" ond nid oes diffiniad clir o'r term hwn mewn cyd-destun Cymreig. Gallai'r diffyg eglurder hwn arwain at ddehongli anghyson ymhlith ymarferwyr, yn enwedig gan fod arweinyddiaeth system yn wahanol i arweinyddiaeth ar lefel ysgol ac yn chwarae rôl allweddol mewn gyrru gwelliant ar draws y system addysg ehangach. Byddai'r ddogfen yn gryfach o gynnwys diffiniad o beth mae arweinyddiaeth system yn ei olygu yng Nghymru, gan amlinellu ei chwmpas, ei chyfrifoldebau a'i disgwyliadau i gefnogi dealltwriaeth gyson a defnydd effeithiol o'r safonau.

Ymhellach, er bod y safonau'n hyrwyddo myfyrio, bydd yn hanfodol eu bod yn cael eu defnyddio'n ddatblygiadol yn hytrach nag yn werthusol, gan warchod diwylliant ymddiriedaeth sy'n sail i dwf proffesiynol effeithiol.

I gloi, rydym:

- yn cefnogi'r safonau cliriach, mwy hygyrch sy'n cynnwys cefnogaeth ar gyfer cynorthwywyr addysgu
- yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol sy'n sail i'r safonau. Mae defnyddio'r rhain yn ddatblygiadol yn hytrach nag yn werthusol yn hanfodol i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol
- yn cefnogi'r dull arfer fyfyriol, sy'n cefnogi hunanwelliant ysgolion
- yn awgrymu y dylai'r flaenoriaeth genedlaethol sy'n gysylltiedig â lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol gael ei hadlewyrchu'n gryfach
- yn galw am enghreifftiau o sut gallai'r safonau fod yn ymarferol i sicrhau cysondeb a chynorthwyo gweithredu
- yn galw am ddysgu proffesiynol priodol i sicrhau bod staff yn ymgysylltu â'r safonau yn rheolaidd ac yn bwrpasol
- yn galw am gryfhau cyfeiriadau at addysgeg ddigidol gan ei bod yn faes â thirwedd sy'n esblygu'n gyflym, sy'n cynnwys defnydd cynyddol o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) mewn ysgolion
- yn awgrymu y dylid cynnwys diffiniad o arweinyddiaeth system
- yn awgrymu y dylai'r cynnig i ddefnyddio'r safonau at ddibenion dilysu ac achredu gael ei ddefnyddio'n ofalus iawn
- yn awgrymu y gellid ymgorffori'r Gymraeg yn fwy eglur fel thema drawsbynciol o fewn pob un o'r pum safon

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1a: A ydych chi'n cytuno bod y strwythur ar gyfer y safonau proffesiynol diwygiedig yn glir ac yn hawdd i'w deall?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno bod strwythur y safonau proffesiynol diwygiedig yn glir, yn gydlynus ac yn hawdd i'w ddeall. Mae'r model pum rhan sy'n cynnwys Addysgeg, Cydweithio, Dysgu Proffesiynol, Arloesi ac Arweinyddiaeth yn cynnig fframwaith rhesymegol ac integredig sy'n adlewyrchu natur arfer broffesiynol yng Nghymru. Mae'r trefniant o ran cynorthwywyr addysgu trwodd i arweinyddiaeth system yn galluogi ymarferwyr i'w lleoli eu hunain o fewn continwwm proffesiynol, gan gydnabod dilyniant ac atebolrwydd ar y cyd. Mae cynnwys disgrifwyr a chwestiynau myfyriol yn rhoi eglurder am fwriad heb leihau barn broffesiynol i restrau gwirio. Mae'r gosodiad yn syml a'r iaith yn hygyrch, gan annog sgwrsio yn hytrach na chydymffurfio. Rydym yn ystyried bod y strwythur yn un sythweledol ond yn teimlo y byddai enghreifftiau a dysgu proffesiynol effeithiol yn fuddiol i sicrhau dealltwriaeth gyson ar draws y system.

**Cwestiwn 1b: A ydych chi'n cytuno bod y strwythur ar gyfer y safonau proffesiynol diwygiedig yn berthnasol i anghenion ac arferion presennol?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno bod y strwythur diwygiedig yn berthnasol i gyd-destun presennol addysg yng Nghymru. Mae'r fframwaith yn adlewyrchu'r agenda diwygio ehangach sy'n pwysleisio ymholi proffesiynol, cynhwysiant, lles a thegwch. Mae'n cydnabod natur gynyddol gydweithredol a myfyriol y proffesiwn ac yn cyd-fynd yn agos â nodweddion ysgolion effeithiol a nodwyd trwy ein harolygiadau. Caiff ei berthnasedd ei gryfhau gan gysylltiadau eglur â blaenoriaethau cenedlaethol fel Cymraeg 2050, gwrth-hiliaeth a llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Credwn fod y strwythur yn gyfoes ac yn addasadwy, a all esblygu ochr yn ochr â'r proffesiwn.

**Cwestiwn 2a: A ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifwyr ategol yn briodol ar gyfer cynorthwywyr addysgu?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno bod y safonau diwygiedig yn briodol ar gyfer cynorthwywyr addysgu a bod eu cynnwys yn yr un fframwaith ag athrawon ac arweinwyr yn amserol ac yn bwysig, fel ei gilydd. Mae'r integreiddio hwn yn cydnabod rôl hanfodol staff cymorth yng nghynnydd a lles dysgwyr. Caiff y disgrifwyr a'r cwestiynau myfyriol eu hanelu ar lefel hygyrch ac maent yn annog trafodaeth bwrpasol am ddysgu, cynhwysiant a chydweithio. Maent yn gwahodd cynorthwywyr addysgu i'w gweld eu hunain fel pobl broffesiynol sy'n tyfu, yn hytrach na fel staff cynorthwyol yn destun cyfarwyddyd. I gyflawni cysondeb, teimlwn fod angen cyfle teg i elwa ar ddysgu proffesiynol ac enghreifftiau clir yn dangos sut mae'r safonau'n berthnasol ar draws cyd-destunau amrywiol fel y blynyddoedd cynnar, ADY ac addysg cyfrwng Cymraeg.

**Cwestiwn 2b: A ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifwyr ategol yn briodol ar gyfer athrawon?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno bod y safonau'n berthnasol ac yn addas o heriol ar gyfer athrawon. Maent yn pwysleisio addysgeg addasol a myfyrio proffesiynol, sy'n nodwedd graidd o addysgu effeithiol o dan Gwricwlwm i Gymru. Mae'r cwestiynau myfyriol yn annog athrawon i gysylltu theori, tystiolaeth ac arfer ystafell ddosbarth. Teimlwn y gallai'r fframwaith helpu ymarferwyr i gynllunio, adolygu a mireinio eu haddysgu tra'n cysoni eu dysgu proffesiynol â blaenoriaethau'r ysgol. Mae Estyn yn croesawu'r cydlyniant hwn ond yn nodi y bydd gweithredu yn gofyn am amser a chymorth digonol i alluogi athrawon i fyfyrio'n ystyriol yn hytrach na thrin y broses fel un weinyddol.

**Cwestiwn 2c: A ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifwyr ategol yn briodol ar gyfer arweinwyr mewn ysgolion?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno bod y safonau'n briodol ar gyfer arweinwyr mewn ysgolion ac yn cofnodi eu rôl ddeuol yn gywir fel arweinwyr addysgegol a sefydliadol. Mae'r disgrifwyr yn amlygu pwysigrwydd modelu ymholi proffesiynol, cynnal diwylliannau cydweithredol a chynnal arweinyddiaeth foesegol. Mae'r disgwyliadau hyn yn adlewyrchu tystiolaeth Estyn o ysgolion effeithiol, lle mae arweinwyr canol ac uwch arweinwyr yn cefnogi gwella'r ysgol. Mae'r safonau'n cefnogi meithrin capasiti arwain, er ein bod yn teimlo y byddai arweiniad sy'n dangos dilyniant o arweinyddiaeth ystafell ddosbarth i rolau uwch yn cryfhau eglurder ac yn cefnogi datblygiad staff.

**Cwestiwn 2ch: A ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifwyr ategol yn briodol ar gyfer penaethiaid?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno bod y safonau yn gynhwysfawr ac yn cyd-fynd yn dda â rolau penaethiaid. Maent yn disgrifio arweinyddiaeth fel moesol, strategol ac addysgegol, gan osod rôl y pennaeth yn gadarn o fewn yr ymchwil am degwch a llwyddiant dysgwyr. Mae'r fframwaith yn pwysleisio cyfrifoldeb y pennaeth am ddiwylliant, dysgu proffesiynol a phartneriaeth gymunedol. I sicrhau cysondeb, rydym yn argymell y dylai arweiniad ar weithredu egluro sut mae'r safonau'n traws-dorri rheoli perfformiad penaethiaid a fframweithiau gwella ysgolion.

**Cwestiwn 2d: A ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y cwestiynau cysylltiedig a'r disgrifwyr ategol yn briodol ar gyfer arweinwyr system?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno bod y safonau'n berthnasol ar gyfer arweinwyr system ac yn adlewyrchu'r disgwyliad cynyddol fod arweinyddiaeth yn ymestyn y tu hwnt i'r ysgol unigol. Mae'r ffocws ar gydweithio, arfer wedi'i llywio gan dystiolaeth a meithrin capasiti yn cyd-fynd ag egwyddorion system hunanwella.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio'n rheolaidd at *"arweinyddiaeth system"* ac *"arweinwyr system"*, yn enwedig o fewn y disgrifwyr a'r cwestiynau diwygiedig. Fodd bynnag, er bod y term yn cael ei ddefnyddio ar draws y ddogfen, nid yw'n rhoi diffiniad eglur o beth mae arweinyddiaeth system yn ei olygu yn y cyd-destun Cymreig. Mae hyn yn creu amwysedd posibl i ymarferwyr, yn enwedig o ystyried bod arweinyddiaeth system yn gysyniad sy'n datblygu ac weithiau'n un y mae dadlau yn ei gylch o fewn diwygio addysg yn rhyngwladol.

Mae absenoldeb diffiniad yn gwanhau eglurder a defnyddioldeb y ddogfen. Gan fod arweinyddiaeth system yn sail i sawl safon, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys cydweithio ar draws ysgolion, gwella ar draws sectorau ac ymgysylltu â strwythurau amlasiantaethol, byddai ymarferwyr yn elwa ar esboniad cryno ynghylch:

- cwmpas cyfrifoldebau arweinydd system,
- sut mae arweinyddiaeth system yn wahanol i arweinyddiaeth a phrifathrawiaeth ysgolion, a'r
- ymddygiadau, y dylanwad a'r atebolrwydd disgwyliedig sy'n gysylltiedig â'r rôl hon.

Byddai darparu diffiniad clir yn cryfhau'r ddogfen trwy sicrhau bod pob ymarferwr, gan gynnwys y rhai sy'n dyheu am rolau ar lefel system neu'n gweithredu oddi mewn

iddynt, yn rhannu dealltwriaeth gyffredin. Byddai hefyd yn cefnogi cysondeb wrth ddehongli yn ystod adolygiadau datblygiad proffesiynol ac wrth ddefnyddio'r safonau fel rhan o lwybrau datblygu arweinyddiaeth. Byddai diffiniad eglur yn ymestyn cydlyniant, yn lleihau amrywioldeb wrth ddehongli ac yn helpu ymarferwyr a phartneriaid i ddeall sut mae arweinyddiaeth system yn cyfrannu at welliant ar draws y system addysg ehangach yng Nghymru.

Mae'r fframwaith yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer dylanwad moesegol a phartneriaeth ar draws ysgolion. Rydym yn cefnogi'r dull hwn, ac yn argymell cysondeb parhaus â chyrff cenedlaethol, fel 'Dysgu' a gwasanaethau gwella rhanbarthol i gynnal cydlyniant ar draws y system.

**Cwestiwn 3a: A ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifwyr ategol yn briodol i'w defnyddio mewn cyfnod ymsefydlu statudol gorfodol (Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG))?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno bod y safonau'n addas i'w defnyddio mewn cyfnod ymsefydlu statudol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso. Maent yn cynnig offeryn datblygiadol sy'n pontio addysg gychwynnol athrawon, cyfnod ymsefydlu a dysgu proffesiynol parhaus i athrawon ar ddechrau eu gyrfa. Gallai'r cwestiynau myfyriol helpu mentoriaid i hwyluso deialog bwrpasol a chefnogi athrawon newydd gymhwyso i nodi eu prosiectau ymholi proffesiynol (os disgwylir i'r gofyniad hwn barhau). Bydd gweithredu llwyddiannus yn dibynnu ar a yw mentoriaid a dilyswyr yn hyderus yn defnyddio'r fframwaith i gefnogi twf, yn ogystal â sicrhau bod proffiliau ymsefydlu yn briodol. Byddai'n fuddiol egluro i athrawon newydd gymhwyso a mentoriaid sut dylai'r safonau proffesiynol chwarae rôl mewn adborth datblygiadol, fel rhan o broses adolygu'r cyfnod ymsefydlu ac arsylwi gwersi.

**Cwestiwn 3b: A ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifwyr ategol yn briodol i'w defnyddio yng nghyd-destunau dilysu ac achredu (er enghraifft y Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysg (TALP) a'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yng Nghymru (CPCP))?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno bod y safonau diwygiedig yn briodol fel ystyriaethau ar gyfer prosesau dilysu ac achredu fel TALP a CPCP. Mae'r pwyslais ar fyfyrio, ymholi proffesiynol ac arweinyddiaeth foesegol yn cefnogi cysondeb ar draws rhaglenni datblygu arweinyddiaeth. Mae'r iaith broffesiynol a rennir yn cryfhau cydlyniant

rhwng gwahanol gyfnodau dysgu proffesiynol, a gallai ymestyn dilyniant trwy lwybrau arweinyddiaeth.

Fodd bynnag, bydd yn hanfodol bod y safonau'n cael eu defnyddio yn ddatblygiadol yn hytrach nag yn or-werthusol. Os bydd y safonau'n cael eu defnyddio at ddibenion dilysu ac achredu, gallai hyn wrth-ddweud llawer o'r nodau a amlinellir yn y ddogfen, e.e. 'Mae'r safonau proffesiynol wedi eu bwriadu i gael eu defnyddio'n ymatebol, gan alluogi unigolion i ymgysylltu â nhw mewn ffyrdd sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol a'u harfer fyfyriol eu hunain orau.' Neu 'Ni fwriedir i'r disgrifwyr gael eu darllen na'u defnyddio fel rhestr wirio, cerdyn sgorio na thaenlen. Yn hytrach, maent wedi'u dylunio'n fwriadol i annog unigolion i archwilio agweddau ar eu gwaith a defnyddio'r safonau proffesiynol mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'w cyd-destun proffesiynol.' Os oes ganddynt ddiben deuol, bydd angen i hyn fod yn eglur, yn enwedig sut dylid eu defnyddio fel 'trothwy' at ddibenion achredu.

**Cwestiwn 4: A ydych chi'n cytuno y bydd y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifwyr ategol yn hwyluso sgyrsiau datblygiadol anffurfiol?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno y gallai'r safonau diwygiedig hwyluso sgyrsiau proffesiynol datblygiadol anffurfiol. Mae'r cwestiynau myfyriol wedi eu cynllunio i ennyn chwilfrydedd a thrafodaeth yn hytrach na barn. Pan fyddant yn cael eu defnyddio'n dda, gallent ddyfnhau dealltwriaeth broffesiynol o addysgeg a chryfhau diwylliannau dysgu cydweithredol. Rydym yn gweld bod hyn yn un o gryfderau posibl y fframwaith, gan nodi mai ysgolion sy'n cynnal deialog agored a myfyriol fydd yn gallu cynnal gwelliant yn fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod dysgu proffesiynol pwrpasol yn cysylltu â sut i ddefnyddio'r safonau er mwyn cyflawni'r nod hwn.

**Cwestiwn 5a: A ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y disgrifwyr ategol a'r cwestiynau cysylltiedig yn gefnogol ac yn ddatblygiadol?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno bod y safonau'n gefnogol ac yn ddatblygiadol. Maent yn annog pobl broffesiynol i gymryd perchnogaeth o'u twf a gweld bod dysgu proffesiynol yn rhan annatod o'u rôl. Mae'r gogwydd hwn yn meithrin diwylliant o ymddiriedaeth a myfyrio sy'n gyson â nodau Cwricwlwm i Gymru. Yr her fydd sicrhau bod y bwriad datblygiadol yn cael ei warchod yn ymarferol ac na chaiff ei leihau i offeryn rheoli perfformiad.

**Cwestiwn 5b: A ydych chi'n cytuno bod y safonau proffesiynol diwygiedig, y disgrifwyr ategol a'r cwestiynau cysylltiedig yn hyrwyddo synnwyr o broffesiynoldeb?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno bod y safonau'n hyrwyddo proffesiynoldeb trwy ddisgrifio gwerthoedd clir uniondeb, parch ac ymddygiad moesegol. Maent yn atgyfnerthu'r farn fod addysgu ac arweinyddiaeth yn broffesiynau sy'n gofyn llawer yn ddeallusol ac yn foesol bwrpasol. Mae'r pwyslais ar arfer fyfyriol ac ymreolaeth broffesiynol yn ehangu statws y proffesiwn ac yn cyd-fynd â fframwaith Estyn lle mae cred fod ymddiriedaeth a chyfrifoldeb proffesiynol, pan fyddant yn cael eu gwneud yn dda, yn feysydd allweddol sy'n arwain at welliant. Mae cynnwys ystod o rolau hefyd yn hyrwyddo synnwyr o broffesiynoldeb ar draws y system.

**Cwestiwn 6a: A ydych chi'n cytuno y bydd y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifwyr ategol yn sbarduno sgyrsiau proffesiynol a fydd yn annog ffocws ar y blaenoriaethau ar gyfer y sector addysg yng Nghymru?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno y gallai'r safonau annog sgyrsiau proffesiynol sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau sector. Maent yn cyfeirio'n eglur at amcanion cenedlaethol fel tegwch, lles, cynhwysiant a dwyieithrwydd, gan alluogi ymarferwyr i gysoni eu gwaith â'r blaenoriaethau hyn, er y gallai fod ffocws cryfach ar rai, fel lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Gallai'r safonau helpu sicrhau bod trafodaethau am arfer wedi eu cysylltu'n gadarn â chyfeiriad strategol addysg yng Nghymru.

**Cwestiwn 6b: A ydych chi'n cytuno y bydd y safonau proffesiynol diwygiedig a'r disgrifwyr ategol yn galluogi'r agenda gwella ysgolion sy'n datblygu?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno y gall y safonau diwygiedig gefnogi'r agenda gwella ysgolion sy'n datblygu. Mae'r fframwaith yn hyrwyddo ymholi, cydweithio a myfyrio, sef amodau sy'n sail i ysgolion sy'n hunanwella. Trwy gysylltu dysgu proffesiynol yn uniongyrchol â deilliannau dysgwyr, mae'r safonau'n darparu strwythur cydlynus i

ysgolion gynllunio ac adolygu gwelliant. Bydd cysondeb â fframweithiau dysgu proffesiynol rhanbarthol a chenedlaethol yn hanfodol i gynnal cysondeb.

**Cwestiwn 7: A oes unrhyw ddisgrifwyr sy'n aneglur, y dylid eu newid neu sydd ar goll?**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn o'r farn fod y disgrifwyr yn glir a chynhwysfawr, ar y cyfan, ond rydym yn awgrymu y dylid ymhelaethu arnynt ymhellach mewn rhai meysydd: mwy o bwyslais ar y datblygiadau mewn addysgeg ac arloesi digidol; disgrifio dilyniant yn gliriach rhwng rolau a haenau. Byddai enghreifftiau ymarferol yn cefnogi dealltwriaeth gyson.

**Cwestiwn 8: Pa fath o gymorth allai fod yn ddefnyddiol i alluogi'r safonau i gael eu defnyddio'n effeithiol?**

**Sylwadau ategol:**

I alluogi'r safonau i gael eu defnyddio'n effeithiol, rydym yn argymell ystod o enghreifftiau, deunyddiau rhyngweithiol ar Hwb a dysgu proffesiynol penodol ar sut orau i ddefnyddio'r fframwaith. Dylid teilwra dysgu proffesiynol i wahanol rolau. Bydd arweiniad cydweithredol awdurdodau lleol, gyda chymorth gan 'Dysgu', yn helpu sicrhau dehongli cyson a chyfle teg i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol.

**Cwestiwn 9: A oes effeithiau eraill i'r cynigion hyn yr hoffech rannu eich barn arnynt?**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn credu y gallai'r fframwaith newydd gryfhau diwylliant o fyfyrio, ymholi a chydweithio, gydag effeithiau cadarnhaol ar broffesiynoldeb a lles staff. Gallai hefyd wella cadw staff trwy egluro llwybrau gyrfa. Mae'r brif risg yn ymwneud â baich gwaith a chymorth amrywiol; dylid lliniaru'r rhain trwy arweiniad clir ac amser digonol ar gyfer myfyrio proffesiynol. Mae rhaglen dysgu proffesiynol gref i gefnogi gweithredu'r safonau yn hanfodol. Mae hefyd yn hanfodol bod y safonau'n cyd-fynd â datblygiadau eraill o fewn addysg ac yn rhan o gynllun cydlynus.

**Cwestiwn 10: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

**Ydych chi’n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn credu y gall y safonau gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mae’r fframwaith yn hyrwyddo Cymraeg 2050 ac yn annog arfer ddwyieithog ar draws pob rôl. Dylai gweithredu sicrhau mynediad cyfartal at ddysgu proffesiynol cyfrwng Cymraeg ac enghreifftiau dwyieithog o arfer dda.

**Cwestiwn 11: Yn eich barn chi, a allai’r cynigion gael eu ffurfio neu’u newid er mwyn gwneud y canlynol:**

**• cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**

**• liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn awgrymu y gellid ymgorffori’r Gymraeg yn fwy eglur fel thema drawsbynciol o fewn pob un o’r pum safon. Dylid annog ymarferwyr i ddefnyddio a hyrwyddo’r Gymraeg mewn cyd-destunau proffesiynol a dylid sicrhau cydraddoldeb rhwng lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg wrth fonitro systemau.

**Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:**

**Bod yn anhysbys**

**Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych i’ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:**

**Byddwn yn hoffi aros yn ddienw Byddwn | Na fyddwn**